CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Cwyno ynglŷn â Safonau Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad - Sut mae mynd ati i gwyno

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Bwyllgor Safonau Ymddygiad sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion a gyfeiriwyd ato gan Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad ynglŷn ag achos lle nad yw Aelod Cynulliad yn cydymffurfio â'r canlynol:-

- Safonau Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad,

- gofynion y Cynulliad i gofrestru a datgan buddiannau ariannol penodol a buddiannau eraill.

Comisiynydd Safonau
Person annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad i ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau ac i gynghori'r Cynulliad yn gyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â Safonau Ymddygiad yw'r Comisiynydd.

Os oes gennyf gŵyn beth ddylwn i ei wneud yn gyntaf?
Ystyriwch natur y gŵyn a beth fyddai'r ffordd fwyaf priodol o wneud eich cwyn. Os yw'r mater yn ymwneud â gweithredoedd Aelod Cynulliad (wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau), mae'n bosibl bod hwn yn fater i'r Comisiynydd Safonau a fydd yn ystyried a ddylai gyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Mae enghreifftiau o'r mathau o bethau y gall y Comisiynydd eu cyfeirio at y Pwyllgor yn cynnwys:-
- Aelodau'n peidio â datgan y gallent fod ar eu hennill o ganlyniad i benderfyniad penodol gan y Cynulliad.
- Aelodau nad ydynt yn cofrestru manylion ariannol penodol.
- Aelodau sy'n defnyddio eu lwfansau mewn ffordd amhriodol.

Er bod cylch gwaith y Pwyllgor yn eang, ni all y Comisiynydd ymchwilio i bopeth. Er enghraifft, byddai cwynion ynglŷn â pherfformiad AC fel AC etholaethol yn fater i'r etholaeth ac nid i'r Pwyllgor. Felly, mewn rhai achosion efallai y bydd yn awgrymu bod rhywun arall mewn sefyllfa well i ystyried eich cais (gweler "Ffyrdd Eraill o Gwyno").

Beth ddylwn i ei wneud os credaf fod hwn yn rhywbeth y dylai'r Comisiynydd ei ystyried?

Rhowch ffeithiau eich cwyn mewn llythyr a'i anfon at:
Comisiynydd Safonau y Cynulliad Cenedlaethol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Er mwyn helpu'r Comisiynydd penderfynwch pa gamau i'w cymryd, nodwch gymaint o fanylion â phosibl a cheisiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Os byddaf yn gwneud cwyn, beth fydd yn digwydd wedyn?
Bydd y Comisiynydd yn cydnabod ei fod wedi derbyn eich cwyn ac yn ystyried a yw'n dderbyniol. Os bydd yn penderfynu bod y gŵyn yn dderbyniol, bydd yn cynnal ymchwiliad manylach.

Os na fydd y Comisiynydd yn teimlo bod eich cwyn yn dderbyniol, byddwn yn eich hysbysu ac yn rhoi esboniad i chi o'i benderfyniad.

Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad ffurfiol, fe'ch hysbysir o hyn. Yn ystod y cam hwn efallai y bydd yn rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r Aelod Cynulliad yr ydych yn gwneud cwyn yn ei ebyn/herbyn. Golyga hyn y bydd yr Aelod yn cael manylion y gŵyn a manylion y person sy'n gwneud y gŵyn (h.y. chi).

Os nad ydych am i ni ddatgelu eich manylion, bydd rhaid i chi nodi hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall hyn atal yr ymchwiliad rhag barhau.

Yr Ymchwiliad
Bydd y Comisiynydd yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau gan nodi'r ffeithiau a gadarnhawyd, ac unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt, o ran a yw'r Aelod wedi mynd yn groes i god safonau'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor fel arfer yn trefnu gwrandawiad i ystyried y gŵyn. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn eich gwahodd i fynychu (er nad oes rhaid i chi wneud hynny os nad ydych yn dymuno) ac fe'ch hysbysir o'r canlyniad.

Mae manylion llawn y weithdrefn gwyno ar gael gan y Comisiynydd Safonau yn y cyfeiriad uchod neu ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-commissioner-standards.htm

Ffyrdd Eraill o Gwyno
Mae'r daflen hon yn nodi sut y gallwch wneud cwyn ynglŷn â rhai materion. Os oes gennych gŵyn ynglŷn â materion na chânt eu cwmpasu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mae yna ffyrdd eraill o sicrhau y gwrandewir ar eich cwyn ac yr ymchwilir iddi. Efallai y gall y rhain helpu:-

Yr Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Ombwdsmon Seneddol

Comisiynydd Safonau: Mehefin 2009